mantais

Cyfweliad Arbennig gyda Griff Lynch o'r Ods

Lansio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Gwybodaeth am ysgoloriaethau'r Coleg

Byd mawr Ryan Kift

Ysgoloriaethau Newydd ar gyfer 2011

Mae'r ymateb i un o brif ddatblygiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y cynllun ysgoloriaethau israddedig newydd, wedi bod yn galonogol dros ben. Erbyn y dyddiad cau roedd 171 o ddarpar fyfyrwyr o bob cwr o Gymru wedi ymgeisio am brif ysgoloriaethau'r Coleg, gwerth hyd at £3000 yr un i fyfyrwyr dros dair blynedd.

Mae 7 o sefydliadau addysg uwch Cymru yn rhan o'r cynllun ysgoloriaethau newydd, sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

Cynigir ysgoloriaethau israddedig y Coleg mewn dau gategori - cyrsiau gradd lle y gellid astudio o leiaf dwy ran o dair o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys o leiaf 80 credyd ymhob blwyddyn (Prif Ysgoloriaethau), a chyrsiau gradd lle y gellid astudio o leiaf traean o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, (gan gynnwys o leiaf 40 credyd ymhob blwyddyn - Ysgoloriaethau Cymhelliant).

Mae'r cyrsiau cymwys, sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o seicoleg i fioleg ac mae myfyrwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd o'u hastudiaethau yn y Brifysgol.

Peidiwch â cholli allan!
Dilynwch ni ar Facebook a Twitter

facebook

@mantais





Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sefydliad cenedlaethol newydd a fydd yn cydweithio gyda phrifysgolion Cymru er mwyn cynllunio, cynnal a datblygu cyrsiau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Mae'r Coleg yn gyfrifol am nifer o brosiectau a datblygiadau newydd, dyma rai ohonynt:

- Llwyfan e-ddysgu i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, o'r enw Y Porth

- Canolfan Edward Llwyd : prosiect sydd yn cydweithio gydag ysgolion a cholegau addysg bellach er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r manteision hirdymor sydd i'w cael o fynd ati i astudio'r gwyddorau drwy gyfrwng y Gymraeg

- Ysgoloriaethau - mae'r Coleg yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig drwy gynlluniau ysgoloriaethau newydd. Mae'r cynlluniau yma yn cael eu cynnig am y tro cyntaf o flwyddyn academaidd 2011/12 ymlaen

Coleg Cymraeg Cenedlaethol



Mae Griff Lynch yn hogyn prysur! Tra mae ei fand poblogaidd - Yr Ods - yn parhau i fynd o nerth i nerth yn dilyn cyhoeddi eu cryno ddisg gyntaf ar label Copa'r llynedd, mae'r bachgen o Benrhosgarnedd, ger Bangor, hefyd bellach yn cyflwyno ar deledu a radio a newydd gwblhau cwrs meistr mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Ymunodd Mantais ag ef ar y trên i Gaeredin yn ddiweddar, er mwyn cael sgwrs gydag ef am gerddoriaeth, bywyd coleg, a bod yn athletwr diog... cyn gorfod gwrando ar y gitarydd bychan yn gweiddi a bloeddio canu, wrth iddo wylio Cymru'n curo'r Alban yn Murrayfield!

Ym mha ysgol uwchradd oeddet ti'n ddisgybl?
Ysgol Tryfan, Bangor

Beth oedd dy hoff a dy gas bynciau yn yr ysgol a pham?
'Doedd gen' i ddim un hoff bwnc penodol i ddweud y gwir, ond er fy mod i'n hoffi gwylio pêl-droed a rygbi, 'dwi erioed wedi bod yn dda iawn o ran eu chwarae nhw, felly 'doeddwn i ddim yn hoff iawn o wersi ymarfer corff... Braidd yn ddiog o' ni!

Pa bynciau wnes di astudio ar gyfer Lefel A?
Cymraeg, Hanes a Drama

Ers i ti adael yr ysgol, 'rwyt ti wedi bod yn fyfyriwr mewn dwy wahanol brifysgol – sef Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd. Be wnaeth dy ddenu di i astudio yn y prifysgolion penodol hynny?
'Roedd nifer o gyn-fyfyrwyr eisoes wedi sôn wrtha'i bod Aberystwyth yn lle gwych i fynd i'r brifysgol, ac fe wnaeth clywed yr holl hanesion difyr a doniol am y gymdeithas Gymraeg glos a byrlymus sy'n bodoli yn `y Coleg ger y Lli' greu argraff bellach arna'i. Ar ben hynny, 'roeddwn i wedi rhoi fy mryd ar astudio gwleidyddiaeth ryngwladol, ac mae Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aber yn fyd-enwog... Heb os felly, Aber oedd y lle i mi!

Ychydig cyn i mi gwblhau fy nghwrs gradd israddedig yn Aber, fe wnes i glywed am y cwrs meistr newydd mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Cymru sydd bellach yn bodoli ym Mhrifysgol Caerdydd, ac 'roedd y syniad o allu symud ymlaen i'r ddinas i astudio'r cwrs hwnnw'n teimlo fel cam naturiol. Mae'r Athro Richard Wyn Jones - sef un o arbenigwyr gwleidyddol pennaf Cymru - yn ymwneud yn agos â'r cwrs yng Nghaerdydd, ac 'roedd y syniad o gael fy nysgu gan unigolyn mor hyddysg â fo hefyd yn apelio.

Pam wnes di benderfynu astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol?
'Doeddwn i erioed wedi astudio'r pwnc hwnnw cyn i mi fynd i'r coleg, ond 'roedd y syniad o fynd ati i ymwneud â phwnc o'r newydd yn teimlo fel her i mi ac 'roedd hynny'n apelio.

Ydi hi'n bosibl astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg?
Ydi diolch byth... achos mae fy Nghymraeg i yn dipyn cyfoethocach na fy Saesneg i, ac felly 'dwi'n teimlo yn dipyn mwy cyfforddus yn trafod pethau cymhleth fel gwleidyddiaeth yn fy mamiaith! Mae nifer o'r seminarau – a rhai o'r darlithoedd – sy'n gysylltiedig â'r cwrs gradd wnes i ei astudio yn Aberystwyth yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ffodus i mi, 'roeddwn i'n cael ysgrifennu pob darn o waith cwrs yn y Gymraeg hefyd. Wedi tair blynedd o hynny, 'roedd dechrau astudio mewn prifysgol arall yn dipyn o sioc i'r system mewn ffordd, achos 'roedd dipyn mwy o'r cwrs wnes i ei astudio yng Nghaerdydd yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Ond eto, fe gefais i ddefnyddio'r Gymraeg i ysgrifennu fy nhraethawd hir i yn y fan honno hefyd.

Beth yw'r peth gorau am fod yn fyfyriwr yn Aberystwyth / yng Nghaerdydd?
'Dwi eisoes wedi sôn am y gymdeithas Gymraeg glos sy'n bodoli yn Aberystwyth, ac - er bod rhai pobl yn dueddol o droi eu trwynau arni - fe wnes i fwynhau cael bod yn rhan o'r gymdeithas honno yn fawr! 'Dwi ddim yn teimlo bod treulio tair blynedd yn ymwneud efo pobl debyg i mi fy hun wedi gwneud unrhyw ddrwg i mi beth bynnag! I ddweud y gwir, 'roedd gallu astudio a chymdeithasu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg yn fy siwtio i i'r dim! Ond wedi dweud hynny, fe gefais i gyfle i ymwneud gyda thrawstoriad llawer mwy amrywiol o bobl tra'r oeddwn i yn astudio yng Nghaerdydd, ac fe wnes i fwynhau hynny'n fawr hefyd! 'Roedd hi'n grêt gallu mynd ati i gyfarfod myfyrwyr o gefndiroedd cwbwl wahanol i mi, ac 'roedd gallu cymdeithasu a thrafod gwleidyddiaeth Cymru gyda phobl o'r fath yn agoriad llygad ac yn brofiad gwerthfawr.

Tra 'roeddet ti'n fyfyriwr yn Aberystwyth fe wnes di sefydlu'r Ods. Yn y dyddiau cynnar 'roeddet ti a Gruff Pritchard yn recordio demos ar dy gyfrifiadur di, ac yn defnyddio dy ystafell wely di yn neuadd Pantycelyn fel stiwdio. Beth oedd eich gobeithion chi o ran y band bryd hynny? Wnes di erioed feddwl y byddai'r Ods yn tyfu i fod yn fand mor llwyddiannus a phoblogaidd?
Na... Dim o gwbl. Y prif nod ar y dechrau oedd cael Radio Cymru i chwarae'n caneuon ni, ac wedyn ella' cael gwahoddiad i berfformio ar raglen fel Bandit ar S4C yn sgil hynny. 'Doedd gennym ni ddim dyheadau y tu hwnt i hynny i gychwyn. Ond wrth i ni gyflawni'r targedau cynnar yma, fe wnaethom ni sylweddoli fod yna lawer mwy o bosibiliadau!

DOD I NABOD GRIFF LYNCH

Pa mor anodd oedd hi i ti o ran cadw'r cydbwysedd cywir rhwng y band a dy waith coleg?
Drwyddi draw, fyddwn i ddim yn dweud bod chwarae yn y band wedi bod yn gymaint â hynny o faich ychwanegol i ddweud y gwir. Wedi'r cyfan, mae angen gallu cymryd seibiant oddi wrth waith coleg hefyd, ac - mewn ffordd felly - mae bod yn aelod o'r Ods wedi cynnig rhywfaint o ryddhad i mi ar adegau! Ond wedi dweud hynny, ni ddylai unrhyw un geisio mynd ati i recordio e.p. ac ysgrifennu traethawd hir ar yr un pryd chwaith... 'Roedd hynny'n eithaf anodd!!!

Sut fyddet ti'n disgrifio cerddoriaeth yr Ods? Sut mae eich sŵn chi wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
'Roedd y rhan fwyaf o'n caneuon cynnar ni wedi eu hadeiladu o amgylch sŵn gitarau trydan. Ond bellach, mae cerddoriaeth yr Ods wedi datblygu i fod yn gymysgedd o synau electro a synau byw amrwd.

iPod pa aelod o'r Ods fyddet ti ddim yn hoffi gorfod gwrando arno fo? Fyddwn ni fyth yn gwrando ar ipod Gruff Pritchard... Mae 'na bob math o sbwriel ar hwnnw!

Mae'r Ods bellach wedi chwarae mewn nifer o wyliau cerddorol blaenllaw - fel Glastonbury, Wakestock a gŵyl y Penwythnos Mawr yn y Faenol, ger Bangor, y flwyddyn ddiwethaf - ac mae eich cerddoriaeth chi hefyd wedi derbyn sylw cadarnhaol gan rai o gyflwynwyr enwocaf BBC Radio 1 a 6 Music. Ond beth - yn dy farn di - ydi'r prif uchafbwynt wedi bod hyd yn hyn?
Y prif uchafbwynt i mi oedd rhyddhau e.p. gyntaf yr Ods fis Hydref diwethaf, achos 'roedd pobl wedi bod yn crefu arnom ni i wneud hynny ers amser hir, a dwi'n teimlo bod y gryno ddisg hefyd yn rhyw fath o symbol gweledol o'r gwaith caled yr ydym ni wedi ei wneud fel band ers i ni ffurfio dair blynedd yn ôl.

Mae'r e.p. honno wedi cael derbyniad da iawn gan y cyhoedd a'r gwybodusion fel ei gilydd, ond beth yw dy obeithion a dy fwriadau di ar gyfer gweddill y flwyddyn sydd i ddod? Beth allwn ni ddisgwyl gan yr Ods yn 2011?
'Dwi'n gobeithio y bydd gennym ni albwm yn barod i'w rhyddhau erbyn diwedd yr haf, ac fe fyddwn ni'n chwarae lot mwy o gigs led led Cymru yn y cyfamser.

Y tu hwnt i astudio gwleidyddiaeth a chadw sŵn gyda'r Ods, rwyt ti hefyd yn gwneud rhywfaint o waith cyflwyno ar raglen C2 ar Radio Cymru. Wyt ti wedi dod ar draws unrhyw fandiau diddorol ac addawol newydd tra'r wyt ti'n gwneud hynny? Pa fandiau – Cymraeg neu Saesneg – fydd yn fawr yn Hâf 2011 yn dy farn di?
Mae'n debyg mai sŵn y gitâr trydan fydd sŵn 2011, a 'dwi'n gobeithio felly y bydd The Strokes – sydd newydd ryddhau sengl newydd drwy eu gwefan (www.thestrokes.com) – yn ailennill eu hen boblogrwydd yn ystod y misoedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'r gwybodusion yn honni mai band newydd o'r enw The Vaccines fydd yr Arctic Monkeys nesaf, ac o ran y Sîn Roc Gymraeg, mae'r Angen – o Abertawe – yn fand newydd sydd wedi creu cryn argraff arna'i yn ddiweddar. Nhw oedd enillwyr cystadleuaeth Brwydr y Bandiau Mentrau Iaith Cymru / C2 y llynedd.

'Rwyt ti hefyd bellach yn cyflwyno ar raglen y Lle (sydd i'w gweld ar S4C bob nos Wener). Dweud fwy wrthym ni am hynny: be'n union ydi'r Lle? A pha fath o bethau fyddwch chi yn eu trafod ar y rhaglen?
Mae'r Lle yn newid o wythnos i wythnos, ac felly mae hi'n bedair rhaglen wahanol mewn un i ddweud y gwir. Tra y bydd y Lle Feiral (sef rhaglen sy'n ymwneud â gadgets ayyb) yn ymddangos ar eich sgriniau chi un wythnos, y Lle Gwisgo (sy'n canolbwyntio ar ffasiwn) fydd i'w gweld yr wythnos ganlynol. Ochr yn ochr â'r ddau 'le' yna, mae gennym ni hefyd y Lle Siarad, sef rhaglen sy'n rhoi cyfle misol i fechgyn a merched Cymru drafod pynciau llosg o bob math (...rhyw fath o Pawb a'i Farn ar gyfer pobl ifanc os liciwch chi!), ac wedyn mae Y Lle Byw, sef y rhaglen fisol 'dwi yn ei chyflwyno, ac sydd fel arfer yn fwy o rwdlan na dim byd arall... Ond 'dwi'n edrych ymlaen at weld sut y bydd y rhaglen yn datblygu yn ystod y misoedd nesaf!

cyfweliad gyda dr emyr huws

Mae Emyr Huws bellach yn gweithio fel meddyg yn Ysbyty Neville Hall yn y Fenni, ond un o hogia' Sir Fôn ydi'r llanc pump ar hugain oed mewn gwirionedd. Wedi iddo adael Ysgol Gyfun Llangefni gyda phedair lefel A (mewn bioleg, cemeg, daearyddiaeth a mathemateg) yn 2004, penderfynodd Ems symud i lawr i'r de i astudio cwrs gradd mewn meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Cwblhaodd y cwrs hwnnw'n llwyddiannus ddwy flynedd yn ôl. Y tu hwnt i fod yn ddoctor, mae Emyr hefyd yn chwaraewr rygbi brwd. Cynrychiolodd dîm Gogledd Cymru pan yr oedd yn iau, ac mae o bellach yn treulio ei amser sbâr yn chwarae fel maswr i glwb rygbi Abercraf ym Mhedwaredd Adran Cynghrair SWALEC.

Beth oedd dy hoff a dy gas bynciau yn yr ysgol a pham?
Pynciau gwyddonol oeddwn i yn mwynhau eu hastudio fwyaf pan oeddwn i yn yr ysgol. 'Dwi'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored ac mae gennyf hefyd ddiddordeb mewn pethau byw, felly 'roedd pynciau fel daearyddiaeth a bioleg yn apelio ata'i yn fawr. 'Roeddwn hefyd yn hoff o ymarfer corff, gan fod y pwnc hwnnw'n caniatáu i mi gadw'n heini a gwneud un o'r pethau 'dwi yn ei fwynhau fwyaf, sef chwarae rygbi. 'Doeddwn i ddim mor hoff o astudio ieithoedd, serch hynny. Yn wir, 'doedd pynciau fel Saesneg ddim yn fy niddori o gwbl. Cymraeg yw fy iaith gyntaf, ac felly 'roeddwn i yn teimlo'n llawer llai cyfforddus a hyderus pan oedd yn rhaid i mi astudio pynciau drwy gyfrwng ieithoedd eraill.

Pam wnes di benderfynu astudio meddygaeth yng Nghaerdydd?
'Roeddwn yn teimlo bod meddygaeth yn cyd-fynd yn dda gyda fy niddordeb mewn gwyddoniaeth a phethau byw, ac ei fod yn bwnc a fyddai'n caniatáu i mi sianelu diddordebau personol o'r fath a'u defnyddio i wneud gwahaniaeth a helpu pobl. 'Roeddwn i eisiau aros yng Nghymru i astudio, fel y gallwn i barhau i ddefnyddio fy mamiaith tra'n gwneud ffrindiau newydd, ac 'roedd Prifysgol Caerdydd yn lleoliad perffaith ar gyfer gwneud hynny.

Mae'n cymryd mwy na'r dair blynedd arferol i gwblhau cwrs gradd mewn meddygaeth. Esbonia i ni beth yn union ydi strwythur y cwrs.
Pum mlynedd yw hyd cwrs meddygaeth fel arfer. Mae myfyrwyr yn treulio'r rhan fwyaf o dair blynedd gyntaf y cwrs yn yr ystafell ddosbarth, er mwyn dod i ddeall beth yn union sy'n achosi clefydau a salwch. Ond ar yr un pryd, mae myfyrwyr hefyd yn treulio tua chwech wythnos yn cael profiad o weithio ac astudio mewn ysbytai yn ystod ail a thrydedd blwyddyn eu cwrs, ac mae hyn yn eu paratoi ar gyfer y ddwy flynedd olaf, sy'n cael eu treulio bron yn gyfan gwbl yn hyfforddi gyda chleifion mewn ysbytai.

Faint o dy gwrs gradd wnes di ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg?
Yn anffodus, Saesneg yw cyfrwng y rhan fwyaf o'r dysgu ar gwrs meddygaeth Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd. Ond wedi dweud hynny, mae'n bosibl gwneud rhai agweddau o'r cwrs – megis prosiectau unigol – drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, mae tiwtoriaid fel Dr Hefin Jones a'r Athro Ifor Delme Bowen bob amser yn barod i gynnig cymorth i fyfyrwyr Cymraeg sydd am gwblhau darnau o waith o'r fath drwy gyfrwng eu mamiaith.

Beth yw dy farn di am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgolion?
Mae cyrsiau prifysgol sy'n cael eu dysgu – naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol – drwy gyfrwng y Gymraeg yn bethau eithriadol o bwysig yn fy marn i. Ar y naill law, mae bodolaeth cyrsiau o'r fath yn ei gwneud hi'n haws i fyfyrwyr o gefndiroedd Cymraeg deimlo'n fwy cyfforddus a hyderus wrth iddynt astudio. Ond y tu hwnt i hynny, mae'r ffaith ei bod hi bellach yn bosibl i astudio mwy a mwy o gyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn ddatblygiad holl bwysig o ran sicrhau dyfodol yr iaith ei hun. Mae'r Cynulliad eisoes wedi buddsoddi arian er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ehangach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae'n bwysig felly fod pobl ifanc Cymru yn parhau i gael y cyfle i ddefnyddio eu mamiaith wrth iddynt fynd ymlaen i'r brifysgol ac i'r byd gwaith hefyd. Yn syml, os y bydd pobl ifanc Cymru yn parhau i dderbyn mwy a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yna fe fydd dyfodol yr iaith yn ddiogel.

Wyt ti'n teimlo ei bod hi'n fanteisiol i ddoctor allu siarad Cymraeg?
Heb os, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fedr ddefnyddiol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio yn y maes meddygol yng Nghymru ei chael. Mae'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gyda chleifion yn rhan elfennol bwysig o waith unrhyw ddoctor – wrth iddo / iddi fynd ati i ddadansoddi problemau iechyd ac argymell triniaeth addas – ac yn amlach na pheidio, mae'n well gan gleifion drafod eu anhwylderau drwy gyfrwng eu mamiaith. Yn amlwg, Cymraeg yw iaith gyntaf nifer o'r cleifion y byddaf i yn ymdrin â hwy, ac felly mae nhw bob amser yn falch fy mod i yn gallu siarad yr iaith honno hefyd.

Beth yw dy obeithion di ar gyfer y dyfodol? Yn lle wyt ti'n rhagweld y byddi di'n gweithio? Wyt ti am aros yng Nghymru?
Fy mwriad tymor hir yw i ganolbwyntio ar naill ai meddyginiaeth gofal dwys neu ar ddelio gydag anhwylderau yn ymwneud â'r Galon. 'Rwyf yn gobeithio gallu parhau i weithio yn ne Cymru am rai blynyddoedd eto, ond y dewis arall fyddai symud i weithio yn ôl adref ar ynys Môn. Y naill ffordd neu'r llall, serch hynny, 'rwy'n rhagweld y byddaf yn parhau i weithio fel doctor yn rhywle yng Nghymru, ac y byddaf yn parhau i siarad Cymraeg wrth wneud hynny.

Beth yw dy farn di am ymgyrch Mantais?
Mae ymgyrch Mantais yn wych. 'Rwy'n meddwl y dylid cefnogi unrhyw ymgyrch sy'n bodoli'n benodol er mwyn hybu'r syniad o fynd ati i astudio cyrsiau prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac 'rwy'n siŵr y bydd mwy a mwy o bobl ifanc yn dechrau meddwl o ddifrif am ddefnyddio eu Cymraeg yn y coleg yn dilyn dyfodiad y cynllun ysgolor-iaethau israddedig sy'n cynnig nawdd o hyd at £3000 i fyfyrwyr astudio rhywfaint o'u cyrsiau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n dda bod Mantais hefyd yn pwysleisio'r ffaith bod gallu siarad a thrafod yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg yn ased ddefnyddiol i fyfyrwyr ei chael wrth iddynt fynd ati i geisio canfod swyddi wedi iddynt raddio, oherwydd mae mwy a mwy o gwmniau bellach yn edrych am weithwyr sydd yn berchen ar sgiliau ychwanegol fel dwyieithrwydd.

Beth yw'r peth gorau am fod yn fyfyriwr yng Nghaerdydd?
Fe wnes i gyfarfod pobl o bob cwr o Gymru a gwneud ffrindiau gwych a fydd gyda fi am weddill fy oes tra'r oeddwn i'n astudio yng Nghaerdydd. Er ein bod ni i gyd wedi gadael y brifysgol ers dwy flynedd bellach, mae criw eithaf mawr ohonom ni yn parhau i gyfarfod a chymdeithasu yn aml, ac yn enwedig felly pan y bydd tîm rygbi neu dîm bêl-droed Cymru yn chwarae. Y tu hwnt i hynny, mae Caerdydd yn ddinas sydd wedi datblygu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, ac felly mae yno bellach bob math o atyniadau ar gyfer pobl ifanc sydd am fwynhau eu bywydau coleg i'r eithaf a gwneud yn fawr o'u hastudiaethau.

Y tu hwnt i dy waith, rwyt ti hefyd yn chwarae fel maswr i glwb rygbi Abercraf. Beth mae dy gydchwaraewyr di yn ei ddweud ynglŷn â'r ffaith fod yna feddyg yn y tîm?
Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn tynnu coes gan nad oes llawer o ddoctoriaid wedi chwarae i'r clwb yn y gorffennol. Ond ar y llaw arall, mae rygbi'n gêm gorfforol iawn, ac felly mae rhai o aelodau'r tîm hefyd wedi sôn eu bod nhw'n falch o gael doctor ar y cae gyda nhw tra mae nhw'n chwarae. Yn ffodus, serch hynny, does neb wedi cael anaf rhy ddifrifol ers i mi ymuno â'r clwb!









tydi coleg yn grêt!

'Awyrgylch bywiog a chyffrous y brifysgol wnaeth fy nenu i Abertawe. Mae'n lleoliad gwych: rhwng y môr a dinas fyrlymus, ac mae yma gyfle i fwynhau manteision y ddau fyd. Yn fy mhrofiad i, mae'r darlithwyr yn barod iawn i roi cymorth i fyfyrwyr ar unrhyw adeg. Mae'n braf hefyd i weld y Gymraeg yn ennill tir yma, ac mae'r dewisiadau ar gyfer astudio trwy gyfrwng yr iaith yn cynyddu o hyd. Dyma'r prif le ar gyfer dilyn cyrsiau ieithoedd modern trwy gyfrwng y Gymraeg, felly dewch i Abertawe i brofi'r wefr'.

HANNAH SAMS

Prifysgol Abertawe
(Myfyrwraig trydedd flwyddyn sy'n astudio Cymraeg a Sbaeneg).



'Fe wnes i ddewis Aberystwyth oherwydd bod gan y brifysgol enw da: mae hi'n cael ei hystyried ymysg y goreuon ym Mhrydain. Ochr yn ochr â hyn, 'roedd y ffaith bod cymuned Gymraeg glos yn bodoli yn y brifysgol - ac yn neuadd breswyl Pantycelyn yn enwedig - yn apelio ataf i hefyd. Mae'r brifysgol yn cynnig ystod eang o fodiwlau cyfrwng Cymraeg, sy'n gysylltiedig gyda phob math o gyrsiau gradd. 'Rwyf wedi astudio rhai o'r modiwlau hynny, ac 'rydw i bellach yn llawer mwy hyderus o ran defnyddio'r Gymraeg yn sgil hynny'.

GUTO STEFFAN JENKINS

Prifysgol Aberystwyth
(Myfyriwr ail flwyddyn sy'n astudio Rheolaeth Cefn Gwlad).

'Mae bywyd yn y Drindod Dewi Sant yn llawn hwyl a sbri ac mae'r brifysgol yn llawn o bobl cyfeillgar a hapus. Gan nad yw'r brifysgol yn un fawr, mae'r dosbarthiadau yn fach ac felly mae'r myfyrwyr a'r darlithwyr yn adnabod ei gilydd yn dda, ac 'rydym yn cael ein hannog i fanteisio ar bob cyfle a phrofiad posib'.

LLINOS HAF

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Myfyrwraig sy'n astudio Addysg Blynyddoedd Cynnar).

'Y peth gorau am fod yn fyfyriwr ym Mangor yw fy mod yn gallu cymdeithasu efo myfyrwyr Cymraeg eraill yma, ac 'rydw i hefyd yn mwynhau cael deffro bob bore a gweld y mynyddoedd sydd o gwmpas y ddinas. Mae byw mewn llety myfyrwyr yn brofiad anhygoel, oherwydd rydych yn cael cyfle i ddod yn fyw annibynnol tra'n byw efo pobl o'r un oed a chi.

Mae cwrs Seicoleg Prifysgol Bangor yn un ardderchog. Mae'r darlithwyr yn dda iawn ac mae gan yr adran adnoddau o safon uchel. Enw da'r cwrs wnaeth wneud i mi ddewis Bangor... Wel... hynny a'r golygfeydd bendigedig'.

STEFFAN TEIFI EVANS

Prifysgol Bangor (Myfyriwr ail flwyddyn sy'n astudio Seicoleg).

'Dwi wrth fy modd yn astudio'n UWIC ac yn hapus fy mod yn gallu gwneud llawer o fy nghwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Athrofa yn enwog am ei chyfleusterau proffesiynol ac am yr ysbryd uchelgeisiol sydd yn gysylltiedig â'i thimau chwaraeon. Mae gan y myfyrwyr a'r staff berthynas dda a chryf gyda'i gilydd, ac mae'r cymorth cyson mae'r darlithwyr yn ei roi yn gwneud i mi deimlo'n fwy a mwy hyderus yn fy ngallu academaidd ac athletaidd. Mae bywyd cymdeithasol myfyrwyr UWIC gyda'r gorau yn y wlad ac 'rydym i gyd yn dilyn yr egwyddor o weithio'n galed ac o chwarae'n galetach!'

ALECS DONOVAN

Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) (Myfyrwraig ail flwyddyn sy'n astudio Chwaraeon ac Addysg Gorfforol).

'Fe ddewisais i astudio drama ym Mhrifysgol Morgannwg ar ôl clywed llawer o bethau da am y cwrs. 'Dwi'n fy mlwyddyn olaf erbyn hyn, ac mae'r tair blynedd o astudio yn yr ATRiuM wedi bod yn wych! 'Dwi wedi cael profiadau anhygoel yma, ac wedi gwneud ffrindiau arbennig, gan fod y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd ar fy nghwrs yn griw clos. Mae'r darlithwyr yn ysbrydoledig a chyfeillgar, ac mae nhw'n rhoi llawer o sylw i'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. 'Dwi'n falch fy mod i wedi dewis Morgannwg, mae'r adnoddau sydd ar gael yma o'r safon gorau, ac 'rydw i wedi cael cyfle i ddatblygu sgiliau gwerthfawr iawn ar gyfer y dyfodol'.

CRAIG WALKELY

Prifysgol Morgannwg (Myfyriwr trydedd flwyddyn sy'n astudio Drama).

Media Wales Photos

ELVIS, ZOMBIES A THRASH METAL... BYD ANHYGOEL RYAN KIFT!

Fel canwr mae Ryan Kift – neu Kifty i'w ffrindiau – yn fwyaf adnabyddus. Ond nid ysgrifennu caneuon poblogaidd fel 'Gola Ola' a 'Brenin A' yw unig dalent y 'cardotyn golygus' o ardal Caernarfon. Ochr yn ochr â pharhau i gigio (gan chwarae dwy set acwstig wych ar lwyfan Mantais yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy yr haf diwethaf), mae'r cerddor sydd wedi derbyn clod gan neb llai na Nicky Wire (sef basydd y chwedlonol Manic Street Preachers) bellach wedi dechrau cynhyrchu ffilmiau hefyd. Ond er ei fod yn anhygoel o brysur ar hyn o bryd, 'roedd Ryan yn fwy na pharod i gymryd seibiant bach o'r ffilmio a'r canu i gael sgwrs a phaned gyda Mantais, pan aethom ni i ymweld ag ef ar set ei flocbystyr cyntaf: Zombies From Ireland.

Ym mha ysgol uwchradd oeddet ti'n ddisgybl?
Ysgol Brynrefail, Llanrug

Beth oedd dy hoff a dy gas bynciau di yn yr ysgol a pham?
Fy hoff bwnc oedd ymarfer corff ('dwi wrth fy modd efo cadw'n heini), ac fy nghas bwnc oedd mathemateg. Doeddwn i ddim yn hoff o algebra o gwbl, achos doeddwn i ddim yn gweld pwynt iddo fo!

Wedi i ti orffen ym Mrynrefail, fe wnes di gwblhau cwrs GNVQ Uwch mewn Hamdden, Twristiaeth a Rheoli Adnoddau yng Ngholeg Menai, cyn mynd ymlaen i Brifysgol Bangor i astudio cwrs gradd mewn Hamdden a Thwristiaeth. Beth ydi'r peth gorau am fod yn fyfyriwr ym Mangor yn dy farn di?
Wel... os ydych chi'n hoffi bwyd Tsieineaidd, mae yna siop 'take away' wych ym Mangor Uchaf, ac mae yna hefyd ddigon o amrywiaeth o lefydd i fynd allan gyda'r nos yno! O ran yr ochr academaidd: fe wnes i astudio tua 70% o fy nghwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg, a 'dwi'n falch iawn fy mod i wedi gallu gwneud hynny. Fe fyswn i wedi gallu dewis astudio Hamdden a Thwristiaeth yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg, ond oherwydd fod y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn llawer llai na'r dosbarthiadau Saesneg, 'roeddwn i'n teimlo bod y myfyrwyr Cymraeg yn cael tipyn mwy o sylw unigol gan y darlithwyr a'r tiwtoriaid. **Mewn ffordd felly, dwi'n teimlo fy mod i wedi cael gwell safon o ddysgu oherwydd i mi benderfynu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Wyt ti'n teimlo fod astudio dy gwrs prifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi rhoi unrhyw fanteision eraill i ti? Sut mae gallu siarad Cymraeg wedi bod o gymorth i chdi ers i ti adael y brifysgol, er enghraifft?
Mae gallu siarad a thrafod yn hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgìl fanteisiol iawn i'w chael os ydych chi'n gweithio yn y cyfryngau yng Nghymru. 'Dwi'n bendant yn ffeindio ei fod o'n help pan fyddai'n gwneud cyfweliadau ar gyfer S4C a Radio Cymru... neu ar gyfer cyhoeddiadau fel Cylchlythyr Mantais beth bynnag!!!

Yn gerddorol, 'rwyt ti wedi cael dy gymharu gyda phob math o artistiaid. Mae rhai yn dweud fod yna agweddau o'r caneuon sy'n ymddangos ar 'O'r Ogof' – sef dy e.p. ddiweddaraf di – yn swnio fel gwaith artistiaid unigol eiconig fel Johnny Cash, Eric Clapton ac Elvis hyd yn oed! Ond pwy fysa ti'n ddweud ydi dy brif ddylanwadau di?
Fyddai byth yn mynd ati i drio swnio fel unrhyw un pan fyddai'n 'sgwennu caneuon. Bywyd a phrofiadau personol sy'n dylanwadu arna'i fwyaf... Ond wedi dweud hynny, fyddwn i ddim yn dweud bod cael fy nghymharu efo Johnny Cash ac Elvis yn beth drwg chwaith!!!

Ar yr un trywydd, gan mai dim ond ti a Sian Davies (sy'n canu llais cefndir) sy'n aelodau o 'fand byw' Ryan Kift, mae'n debyg nad ydi hi'n syndod mai 'acwstig a melodig' ydi'r ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio amlaf wrth ddisgrifio dy ganeuon di. Ond wyt ti'n cytuno efo hynny? Sut fyddet ti'n disgrifio dy gerddoriaeth di? Ac wyt ti'n teimlo fod dy s^wn di wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf?
Fe fyddwn i yn cytuno bod 'acwstig a melodig' yn ddisgrifiad da o fy mherfformiadau byw i. Ond wedi dweud hynny, 'roedd fy albwm ddiwethaf i – sef 'Amsterdam' – yn swnio'n hollol wahanol i hynny: 'electro budur' oedd arddull y rhan fwyaf o'r caneuon ar yr albwm hwnnw, felly pwy a wyr be wna'i nesa'! 'Thrash metal' e'lla'?

O ran dy waith cerddorol di, beth ydi'r prif uchafbwynt wedi bod hyd yn hyn?
Clywed Nicky Wire yn dweud mai fi ydi'r peth gorau mae o erioed wedi ei weld ar raglen deledu Bandit, ac ei fod o hefyd yn hoffi'r ffordd 'dwi'n chwarae gitâr.

Ochr yn ochr â pharhau i gigio ac ysgrifennu caneuon newydd, 'rwyt ti hefyd wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar brosiect diddorol a chynhyrfus arall yn ddiweddar. Y tro diwethaf i Mantais siarad gyda ti (yn yr eisteddfod haf diwethaf), 'roeddet ti newydd ddechrau ar y gwaith o ffilmio Zombies From Ireland, ac mae'r prosiect hwnnw bellach yn mynd o nerth i nerth. Ond o ble ddaeth y syniad i droi at gynhyrchu ffilmiau?
Mae gen' i ddiddordeb gwirioneddol mewn ffilmio beth bynnag: mae'r syniad o ddal moment ar ffilm yn rhywbeth sydd wedi fy hudo i erioed, ac felly pan fyddai'n mynd i ffwrdd i lefydd fel Llundain neu Amsterdam i gigio, fe fyddai bob amser yn mynd a fy nghamera efo fi. I ddweud y gwir, 'dwi wedi bod yn ffilmio o gwmpas Ewrop am y pum mlynedd diwethaf, ac felly 'roedd troi at ddechrau gwneud 'ffilm go iawn' ar fy liwt fy hun yn teimlo fel cam digon naturiol.

Er dy fod ti'n disgrifio Zombies From Ireland fel 'ffilm arswyd low budget', mae'r cynhyrchiad wedi derbyn dipyn o sylw gan y wasg a'r cyfryngau, ac rwyt ti hefyd wedi llwyddo i ddenu ambell berson eithaf enwog – fel Glyn Wise a Gethin Evans (sef cyflwynydd rhaglen Gofod ar S4C) – i gymryd rhan. Wnes di erioed feddwl y byddai'r prosiect yn cael gymaint o sylw? A fydd yna unrhyw enwogion eraill yn gwneud cameos yn y ffilm?
'Dwi wedi bod yn eithaf ffyddiog yngl^yn â'r ffilm o'r dechrau. Wedi'r cyfan, mae'r stori'n un dda ac mae'r lleoliadau 'rydym ni yn eu defnyddio ar gyfer ffilmio yn rhai ffantastig. Ond y peth gorau am

Zombies From Ireland ydi'r cast a'r criw: mae pawb sydd wedi cymryd rhan hyd yma wedi bod ar dân efo brwdfrydedd, ac mae hynny yn ei hun yn gwneud i mi deimlo y bydd y prosiect yn llwyddiant. Ochr yn ochr â Glyn a Gethin, fe fydd Marcus Akin (o raglen Big Brother 10) hefyd yn ymddangos yn y ffilm, ac mae'n bosibl y bydd Huw Stephens yn gwneud cameo bach hefyd.

Os fyddet ti'n cael dewis unrhyw actor i ymddangos yn Zombies From Ireland, pwy fyddai'r person hwnnw / honno a pham?
Neb... 'Dwi'n fwy na hapus efo'r criw a'r cast sydd gen' i yn barod. Mae nhw i gyd yn wych, felly tydi'r syniad o orfod delio efo rhyw fabi mam o Hollywood yn strancio ar y set ddim yn un sy'n apelio ata'i... Tydi Zombies From Ireland ddim angen pobl fel'na!

Erbyn pryd wyt ti'n rhagweld fydd y ffilm wedi ei chwblhau? Pryd ac yn lle fyddwn ni'n cael gweld Zombies From Ireland?
Fe fydd y broses o ffilmio yn cael ei chwblhau rhywbryd yn ystod y misoedd nesaf gobeithio, ac wedyn – wedi i ni orffen golygu, ayyb – fe fydd Zombies From Ireland yn cael ei dangos am y tro cyntaf yng Nghanolfan Cell ym Mlaenau Ffestiniog ar noson Calan Gaeaf eleni. O ran beth fydd yn digwydd ar ôl hynny: 'dwi eisoes wedi derbyn nifer o wahoddiadau i fynd i arddangos a thrafod y ffilm mewn llefydd fel prifysgolion ac ysgolion ffilm, felly gwyliwch y gofod!

Os wnei di deipio 'Ryan Kift' i mewn i chwiliadur Google – ochr yn ochr â chanfod pob math o wybodaeth ddiddorol amdanat ti dy hun – fe wnei di hefyd ganfod fod yna Dr Ryan Kift yn gweithio ym Mhrifysgol Canol Queensland (CQU) yn Awstralia! Arbenigwr mewn 'lechyd Galwedigaethol, Diogelwch a'r Amgylchedd' ydi'r Kifty hwnnw. Ond be wyt ti'n meddwl fysa' ti'n ei wneud os na fysa' ti'n ganwr / yn gynhyrchydd ffilm?
DIM OND UN KIFTY SY'NA... Cofiwch chi hynny! Ond i ateb y cwestiwn: os na fyswn i'n 'sgwennu caneuon neu'n cynhyrchu ffilmiau, mae'n debyg mai'r unig beth fyddwn i'n wneud fyddai ymlwybro o gwmpas y lle fel tramp del!

Gallwch glywed detholiad o ganeuon Ryan ar **www.myspace.com/ryankift.** Os ydych chi eisiau gwybod mwy am Zombies From Ireland, gallwch weld dyddiadur fideo (a ymddangosodd yn wreiddiol ar raglen Y Lle ar S4C) ar wefan YouTube: teipiwch 'Kifty'n creu' i mewn i'r blwch chwilio. Os yr hoffech chi gynnig eich hun fel actor ar gyfer y ffilm, gallwch gysylltu gyda Ryan drwy dudalen Zombies From Ireland ar wefan Facebook.

Yn rhinwedd ei swydd yn cyflwyno ar raglen C2 ar Radio Cymru, mae Griff Lynch yn cael cyfle i wrando ar ystod eang o gerddoriaeth. Dyma ei farn ef am dair o'r albymau sydd wedi mynd a'i fryd yn ystod y misoedd diwethaf.

Cowbois Rhos Botwnnog – 'Dyddiau Du, Dyddiau Gwyn' (Sbrigyn Ymborth)
Mae'r casgliad gwych yma o ganeuon gan y brodyr o Ros Botwnnog yn arddangos pam mae'r Cowbois bellach wedi llwyddo i sefydlu eu hunain fel un o fandiau mwyaf poblogaidd a chlodwiw y Sîn Bop Gymraeg. Beth sy'n fy nharo i fwyaf am 'Dyddiau Du, Dyddiau Gwyn' yw bod gan lwan (sef prif leisydd y band) ddawn unigryw gyda geiriau, a hynny yw un o brif gryfderau'r naw trac sydd wedi eu cynnwys yma. Yn wir, mae'r albwm yma yn cynnwys rhai o'r caneuon gorau i mi eu clywed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 'Celwydd Golau ydi Cariad' yn enwedig yn uchafbwynt. Y tu hwnt i berfformiadau caboledig y band ei hun, mae gwaith cynhyrchu trylwyr David Wrench yn rhoi sglein ychwanegol i 'Dyddiau Du, Dyddiau Gwyn' ac yn sicrhau bod y Cowbois yn cymryd cam pwysig ymlaen gyda chyhoeddiad yr albwm yma. **8/10**



Mr Huw – 'Gogleddwyr Budur' (Annibynnol)
Fel 'Hud a Llefrith' a 'Llond Lle O Hwrs A Lladron' o'i flaen, mae albwm diweddaraf Mr Huw yn llawn caneuon bachog sydd – o ran eu sŵn – yn fy atgoffa i o fandiau geek rock Americanaidd fel Weezer. Beth sy'n wahanol am 'Gogleddwyr Budur', serch hynny, yw bod y canwr barfog o Chwilog wedi penderfynu cynnwys rhai traciau Saesneg ar y casgliad hwn. Ond – yn ffodus – nid yw'r caneuon hynny'n swnio allan o'u lle yma. Gellir lawrlwytho'r albwm yma yn rhad ac am ddim o wefan mrhuw.com, a gobeithio felly y bydd 'Creaduriaid Byw' – ynghyd â'r wyth trac arall sydd wedi eu cynnwys ar y casgliad – yn derbyn y clod a'r sylw sylweddol y maent yn haeddu. **7/10**

Y Niwl – 'Y Niwl LP' (Aderyn Papur)
Alun Tan Lan oedd enillydd cystadleuaeth Cân i Gymru y llynedd, ond nid yw unrhyw un o'r caneuon sy'n ymddangos ar albwm cyntaf ei fand diweddaraf – Y Niwl – yn ymdebygu mewn unrhyw ffordd i 'Bws i'r Lleuad'! Mae'r casgliad hwn yn cynnwys deg trac surf rock offerynnol – heb unrhyw ganu lleisiol – ac oherwydd hynny, 'roeddwn i wedi disgwyl i'r albwm fod yn un eithaf undonog. Ond gan mai dim ond gwta hanner awr yw hyd yr albwm, nid yw'r gwrandäwr yn cael cyfle i ddiflasu ar y bachau a'r riffiau gitâr cyson, sy'n adleisio synau'r chwedegau a'r saithdegau yn hynod o effeithiol. Ochr yn ochr ag Alun Tan Lan, mae Y Niwl hefyd yn cynnwys cerddorion profiadol eraill fel Pete Richardson (gynt o Gorky's Zygotic Mynci a Topper) a Sion Glyn (sydd hefyd yn aelod o fand byw Cate Le Bon), ac fe ddangosodd y band eu doniau sylweddol yn ddiweddar, drwy berfformio eu halbwm newydd yn fyw ac yn ei gyfanrwydd ar raglen Huw Evans ar C2 Radio Cymru. **7/10**

Mantais

anfonwch eich newyddion at:
gwybodaeth@mantais.ac.uk

argraffwyd ar bapur cynaliadwy wedi ei ailgylchu. Mae copïau electronig o gylchlythyron Mantais i'w gweld ar y wefan **www.mantais.ac.uk**

E SYDD MLAEN. MANTAIS AR Y FFORDD.. DIWRNODAU AGORED BE SYDD MLAEN. MANTAIS AR Y FFORDD.. DIWRNODAU AGORED BE SYDD MLAEN. MANTAIS AR Y FFORDD.. DIWRNODAU AGORED BE SYDD MLAEN. MANTAIS AR Y FFORDD.. DIWRNODAU AGORED BE SYDD MLAEN. MANTAIS AR Y FFORDD.. DIWRNODAU AGORED BE SYDD MLAEN.

BE SYDD MLAEN

Eisteddfod yr Urdd, Abertawe a'r Fro 2011
30 Mai – 4 Mehefin

Stondin Mantais
Perfformiadau byw, cystadlaethau a gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Sioe Frenhinol Cymru 2011
18-21 Gorffennaf

Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2011, Wrecsam a'r Fro
30 Gorffennaf – 6 Awst

Prifysgol Abertawe
2 Gorffennaf + 8 Hydref 2011
www.swan.ac.uk
Prifysgol Aberystwyth
6 Gorffennaf, 14 Medi + 15 Hydref 2011
www.aber.ac.uk
Prifysgol Bangor
2 Gorffennaf 2011
www.bangor.ac.uk
Prifysgol Caerdydd
9 Medi 2011
www.caerdydd.ac.uk

Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
www.ydrindoddewisant.ac.uk
Campws Caerfyrddin
8 Gorffennaf, 20 Hydref, 21 Hydref 2011
Campws Llambed
6 Gorffennaf 2011
Prifysgol Morgannwg
2 Gorffennaf + 16 Medi 2011
www.glam.ac.uk
Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd
www.uwic.ac.uk
Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
22 Mehefin 2011
Ysgol Addysg Caerdydd (Campws Cyncoed)
18 Mehefin 2011
Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (campws Llandâf)
18 Mehefin 2011
Ysgol Reoli Caerdydd
18 Mehefin 2011

diwrnodau agored 2011

DYLUNIO:COW801S # ARGRAFFU: Y LOLFA